

# Adroddiad Arholwyr Lefel 3

Tystysgrif / Diploma mewn Gwyddor Feddygol
Lefel 3
Haf 2024

© WJEC CBAC Ltd.

**Cyflwyniad**

Mae adroddiad yr Uwch Arholwyr yn rhoi adborth gwerthfawr ar y gyfres asesu ddiweddar. Yr Uwch Arholwyr a'r Uwch Gymedrolwyr sy'n ysgrifennu'r ddogfen hon ar ôl cwblhau'r marcio a'r cymedroli, ac mae'n cynnwys manylion ynghylch perfformiad ymgeiswyr ym mhob uned.

Mae'r adroddiad hwn yn dechrau â chrynodeb o berfformiad ymgeiswyr, gan gynnwys yr amcanion asesu/sgiliau/testunau/themâu sy'n cael eu profi, ac yn tynnu sylw at nodweddion perfformiad llwyddiannus a lle gellid gwella perfformiad. Yna mae'n edrych ar bob uned yn fanwl, gan nodi agweddau oedd yn heriol i rai ymgeiswyr ac awgrymu rhesymau posibl dros hynny.[1]

Mae'r wybodaeth sydd i'w chael yn yr adroddiad hwn yn helpu ymarferwyr i feithrin dealltwriaeth werthfawr i gefnogi eu gweithgaredd addysgu a dysgu. Byddem hefyd yn annog ymarferwyr i rannu'r ddogfen hon – yn ei chyfanrwydd neu rannau ohoni – â'u dysgwyr i'w helpu i baratoi ar gyfer yr arholiadau, i ddeall sut i osgoi diffygion annisgwyl ac i ychwanegu at eu pecyn cymorth adolygu.

**Cefnogaeth bellach**

| Dogfen | Disgrifiad | Cyswllt |
|---|---|---|
| Dysgu Proffesiynol / DPP | Mae CBAC yn cynnig rhaglen eang o ddigwyddiadau Dysgu Proffesiynol wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cofrestrwch ar gyfer un o'n digwyddiadau yma i weld adborth rhyngweithiol, adolygu ymatebion enghreifftiol gan ymgeiswyr, cael syniadau ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth a gofyn cwestiynau i'n tîm ymroddedig. | https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/ |
| Cyn-bapurau | Manteisiwch ar y banc o gyn-bapurau ar gyfer y cymhwyster hwn, gan gynnwys yr asesiadau mwyaf diweddar. Noder na fydd y cyn-bapurau ar gael ar y wefan gyhoeddus hyd nes 12 mis ar ôl yr arholiad. | Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC |
| Gwybodaeth am ffiniau graddau | Ffiniau graddau yw'r nifer isaf o farciau y mae eu hangen i ennill pob gradd. Ar gyfer manylebau unedol, mynegir ffiniau graddau ar Raddfa Marciau Unffurf (GMU). Mae ffiniau graddau GMU yn aros yr un fath bob blwyddyn gan nad yw amrediad y canrannau marciau GMU a ddyrennir i radd benodol yn newid. Mae ffiniau graddau GMU yn cael eu cyhoeddi ar lefel gyffredinol y pwnc a'r uned.<br><br>Gyda manylebau llinol, dyfernir un radd am y pwnc, yn hytrach nag ar gyfer pob uned sy'n cyfrannu tuag at y radd gyffredinol. Cyhoeddir ffiniau graddau ar ddiwrnod y canlyniadau. | Ar gyfer manylebau unedol, cliciwch yma: Canlyniadau, Ffiniau Graddau a Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau (cbac.co.uk) |

[1] ***Noder: lle ystyriwyd bod perfformiad cyffredinol mewn cwestiwn/rhan o gwestiwn yn dda, heb unrhyw feysydd penodol i dynnu sylw atynt, nid yw'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.***

© WJEC CBAC Ltd.

| | | |
|---|---|---|
| Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau | Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar Porth CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon. | Porth CBAC |
| Adnoddau Ystafell Ddosbarth | Manteisiwch ar ein hamrywiaeth eang o adnoddau ystafell ddosbarth RHAD AC AM DDIM, gan gynnwys deunyddiau dysgu cyfunol, adnoddau arweiniad i'r arholiad a threfnwyr gwybodaeth i gefnogi addysgu a dysgu. | https://adnoddau.cbac.co.uk/ |
| Banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol | Manteisiwch ar ein banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol o ddigwyddiadau blaenorol ar ein gwefan ddiogel a deunyddiau wedi'u recordio ymlaen llaw ychwanegol ar y wefan gyhoeddus. | Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC. |
| Dod yn arholwr gyda CBAC. | Rydym bob amser yn chwilio am arholwyr neu gymedrolwyr newydd i'w recriwtio. Gall y cyfleoedd hyn eich helpu i feithrin dealltwriaeth werthfawr o'r broses asesu, gwella eich set sgiliau, gwella eich dealltwriaeth o'ch pwnc a llywio eich addysgu. | Dod yn Arholwr \| CBAC |

© WJEC CBAC Ltd.

**Cynnwys**


| | **Tudalen** |
|---|---|
| Crynodeb gweithredol | |
| Uned 1 | 7 |
| Uned 2 | 12 |
| Uned 3 | 15 |
| Uned 4 | 18 |
| Uned 5 | 22 |
| Uned 6 | 24 |
| Eich cefnogi chi – manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol | 28 |


© WJEC CBAC Ltd.

**Crynodeb Gweithredol**

Roedd y gyfradd ymgeisio isel ar gyfer rhai cwestiynau yn Uned 1 ac Uned 6 yn destun syndod, a oedd yn cynnwys cwestiynau â gofynion isel iawn. Roedd hefyd yn syndod gweld rhannau na roddwyd cynnig arnynt o fewn adran o uned 1 a ryddhawyd ymlaen llaw. Mae ansawdd cyfathrebu ysgrifenedig yn parhau i fod yn broblem. Roedd rhai ymatebion yn aneglur iawn neu'n gwrth-ddweud, gyda'r ymgeiswyr yn methu mynegi eu syniadau. Adroddwyd am broblemau gydag ansawdd llawysgrifen e.e. esbonio rôl ADH mewn osmoreolaeth. Roedd diffyg manylder gwyddonol a defnydd o derminoleg wyddonol addas ar gyfer y cwestiynau ateb estynedig. Yn ogystal roedd llawer o enghreifftiau o ymgeiswyr a oedd heb ddarllen y cwestiwn yn ofalus. Roedd geiriau gorchymyn yn cael eu hanwybyddu'n aml; dylai'r ymgeiswyr fod yn gyfarwydd â geiriau gorchmynnol fel disgrifiwch, esboniwch, cymharwch ac awgrymwch. Roedd adalw gwybodaeth yn broblem i lawer e.e. adeiledd mur y coludd – mae hyn wedi bod yn broblem ers nifer o flynyddoedd.

Roedd cwestiynau synoptig yn broblem yn Uned 1. Mae'r canolfannau'n cael eu hatgoffa bod yn rhaid i rywfaint o gynnwys o Uned 2 ac Uned 3 gael ei asesu drwy arholiad yn Uned 1. Roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr yn ymddangos yn anghyfarwydd â rhywfaint o'r cynnwys hwn e.e. profion wrodynamig a sbirometreg.

Roedd y sgiliau mathemateg yn amrywiol ym mhob uned. Cafodd y cyfrifiadau un cam eu rheoli yn llawer gwell na chyfrifiadau aml-gam. Yn ogystal, nodwyd bod plotio graffau yn broblem, gyda llawer o'r ymgeiswyr yn gwneud gwallau plotio syml, yn labelu echelinau yn anghywir neu'n methu dewis y math o graff/siart mwyaf priodol. Soniodd llawer o'r ymgeiswyr nad oedd cyfrifiannell ar gael iddynt yn ystod arholiadau Uned 1 a 6. Roedd y defnydd o nifer priodol o ffigurau ystyrlon yn parhau i fod yn broblem, yn enwedig yn Unedau 2 a 5. Roedd y defnydd o unedau priodol yn broblem benodol yn Unedau 2, 3, 4 a 5. Dylai'r unedau fod yn gywir ar gyfer pob graff, tabl a phan fydd gwerthoedd yn cael eu dyfynnu yn nhestun yr adroddiad. Mae'r defnydd cywir o nodiant mathemategol yn hynod bwysig yn Uned 3.

Yn yr unedau a aseswyd drwy asesiad di-arholiad (Unedau 2-5), mae'r canolfannau'n cael eu hatgoffa bod cyfyngiad amser ar y tasgau hyn. Dylai'r ymgeiswyr fod yn ymwybodol o'r hyn y gellir ei gyflawni yn yr amser sydd ar gael, a dylid eu hatal rhag cynnwys deunydd ychwanegol nad yw'n ofynnol gan yr asesiad. Nid yw copïo a gludo gwybodaeth o'r rhyngrwyd neu ddeallusrwydd artiffisial yn deilwng o farciau.

| **Meysydd i'w gwella** | **Adnoddau ystafell ddosbarth** | **Disgrifiad byr o'r adnodd** |
|---|---|---|
| Uned 1: adeiledd mur y coludd | y-system-dreulio.pdf (cbac.co.uk) | Trefnydd gwybodaeth – y system dreulio |
| Uned 1: osmoreolaeth | yr-aren.pdf (cbac.co.uk) | Trefnydd gwybodaeth – yr aren |
| Uned 1: ensymau | ensymau_ac_adweithiau_biolegol_1-2.pdf | Trefnydd gwybodaeth – ensymau ac adweithiau biolegol |
| Uned 2: ECG a phwysedd gwaed | 2-1-ffisioleg-gardiaidd.pdf (cbac.co.uk) | Trefnydd gwybodaeth – mesur ffisiolegol: ffisioleg gardiaidd |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | |
|---|---|---|
| Uned 2: anterth llif | [2-2-ffisioleg-resbiradol.pdf (cbac.co.uk)] | Trefnydd gwybodaeth – mesur ffisiolegol: ffisioleg resbiradol |
| Uned 3: newidynnau a rhagdybiaethau | [3-1-dulliau-ymchwil.pdf (cbac.co.uk)] | Trefnydd gwybodaeth – deall dulliau ymchwil |
| Uned 4: triniaethau ar gyfer canser | [4-3-trin-canser.pdf (cbac.co.uk)] | Trefnydd gwybodaeth – trin canser |
| Uned 5: gwanedu cyfresol | [5-6-microbioleg-cyfrif-cyfanswm-y-celloedd-a-chyfrif-celloedd.pdf (cbac.co.uk)] | Trefnydd gwybodaeth – cyfrif cyfanswm y celloedd a chyfrif celloedd hyfyw |

© WJEC CBAC Ltd.

## GWYDDOR FEDDYGOL

## Lefel 3

## Haf 2024

## UNED 1

**Trosolwg o'r Uned**

Uned 1 yw'r uned arholiad a asesir yn allanol ar gyfer y Dystysgrif Gwyddor Feddygol. Mae'n werth 50% o gyfanswm marciau'r cymhwyster hwn. Mae ymgeiswyr yn cael erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw bedair wythnos cyn yr arholiad i weithio drwyddi.

Mae'r cwestiynau yn Adran A y papur arholiad yn seiliedig ar yr erthygl sydd wedi'i rhyddhau ymlaen llaw. Gallai'r cwestiynau hyn ofyn am gynnwys sydd i'w gael yn uniongyrchol yn yr erthygl, gallent ofyn i'r ymgeiswyr gymhwyso eu gwybodaeth, neu gallent gyflwyno cynnwys o Unedau 2 a 3 sy'n gysylltiedig â thema'r erthygl sydd wedi'i rhyddhau ymlaen llaw. 25 yw'r marc uchaf am yr adran hon. Eleni roedd 25 marc ar gael yn Adran A.

Mae Adran B wedi'i gwneud o gwestiynau sy'n seiliedig ar fanyleb unedau 1, 2 a 3. Mae'r cwestiynau'n profi amrywiaeth o sgiliau gan gynnwys galw i gof uniongyrchol, dadansoddi, gwerthuso a sgiliau mathemategol eraill. Eleni roedd Adran B yn werth 65 marc.

Eleni, roedd niferoedd cynyddol o'r ymgeiswyr na wnaethant roi cynnig ar bob cwestiwn ac roedd yn amlwg bod yr holl ymgeiswyr wedi cael digon o amser i gwblhau'r papur. Roedd llawer o ymgeiswyr wedi methu mynegi eu hunain yn glir ac roedd diffyg terminoleg neu benodolrwydd priodol yn yr atebion; roedd hyn yn broblem mewn sgriptiau cyfrwng Cymraeg a Saesneg eto eleni. Mae blaen y papur arholiad yn atgoffa ymgeiswyr bod angen Cymraeg/Saesneg da. Gwelwyd diffyg manylder gwyddonol a defnyddio terminoleg wyddonol addas yn y cwestiynau ateb estynedig; roedd hyn yn cyfyngu ar nifer y marciau oedd ar gael i rai ymgeiswyr.

Roedd yn amlwg bod llawer o'r ymgeiswyr yn cael anhawster â phroblemau mathemategol syml unwaith eto eleni. Roedd yn amlwg o'r sylwadau a wnaed gan yr ymgeiswyr ar bapurau nad oedd cyfrifiannell ar gael iddynt ar gyfer rhai o'r problemau mathemategol mwy cymhleth.

Braf oedd gweld bod gan y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr gyfarpar priodol h.y. pensil a phren mesur i'w defnyddio i luniadu'r graff, er bod canran mawr o'r ymgeiswyr eto wedi dewis y math anghywir o graff.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

### Adran A

Cafodd yr ymgeiswyr erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw yn sôn am glefyd Parkinson eleni.

Roedd angen i'r ymgeiswyr ddefnyddio gwybodaeth o'r erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw i ateb cwestiynau 1, 2, 3, 5, a 7. Gwnaed hyn yn dda iawn ar y cyfan, a chafodd ymgeiswyr lawer o farciau am bob un heblaw cwestiwn 7 lle roedd angen iddyn nhw gymhwyso gwybodaeth oedd wedi dod o'r erthygl.

Roedd yr ymgeiswyr yn gallu dod o hyd i wybodaeth a dewis gwybodaeth gywir o'r erthygl wrth ateb, sy'n dangos bod canolfannau ac ymgeiswyr wedi treulio amser yn gweithio drwy'r erthygl cyn yr arholiad. Roedd hyn yn galonogol.

© WJEC CBAC Ltd.

Ni atebwyd cwestiwn 7 yn dda, ac roedd llawer o'r ymgeiswyr yn cael trafferth i gymhwyso eu gwybodaeth o'r erthygl i fynegi ateb cywir. Roedd y mwyafrif yn methu esbonio'r tueddiadau yn niferoedd y bobl â chlefyd Parkinson, yn lle hynny, gwnaethant ddisgrifio'r tueddiadau nad oeddent yn deilwng o farciau.

Roedd cwestiynau 6(a) a 6(b) yn gwneud cysylltiad ag uned 2 a 3. Roedd gwybodaeth yn yr erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw am brofion clinigol ar gyffuriau i drin clefyd Parkinson a gofynnwyd i'r ymgeiswyr am yr ystyriaethau moesegol a sut roedd modd cyfleu eu canfyddiadau. Yn 6(a), collodd llawer o'r ymgeiswyr farc am beidio â bod yn ddigon penodol yn eu hatebion e.e. roedd angen ‘cydsyniad ar sail gwybodaeth’, nid dim ond ‘cydsyniad’. Nid gofyniad newydd yw hwn, ac mae'r math hwn o gwestiwn wedi'i ddefnyddio sawl gwaith yn y gorffennol, felly ni ddylai fod wedi dod er syndod i'r ymgeiswyr eleni. Enillodd llai o'r ymgeiswyr farciau yn 6(b) pan ofynnwyd am y canfyddiadau, roedd yn siomedig o ystyried y byddai'r holl ymgeiswyr wedi llunio project ymchwil eu hunain ar gyfer uned 3 ac felly byddent wedi defnyddio graffiau, dadansoddi ystadegol ac ysgrifennu adroddiadau i gyfleu eu canfyddiadau.

Roedd labelu'r niwron echddygol yn her i rai ymgeiswyr yng nghwestiwn 4. Roedd hyn yn siomedig iawn gan fod disgwyl i ymgeiswyr allu lluniadu a labelu'r gell. Gwnaeth yr ymgeiswyr ddrysu'r dendridau gyda'r derfynell acson.

Unwaith eto, cafodd ymgeiswyr drafferth i blotio graff cywir eleni. Roedd y graff yn her eleni, ond cafodd llawer o ymgeiswyr drafferth i ddewis y graff mwyaf priodol ar gyfer y data a gwnaethant luniadu graffau llinell yn lle siartiau bar. Arweiniodd hyn atynt yn colli un marc, ond yna roeddent yn gallu cael gafael ar yr holl farciau eraill sydd ar gael ar gyfer plotio (2) a labelu'r echelinau (1). Collodd llawer farc arall am labelu'r echelinau gan na wnaeth ymgeiswyr roi uned ar gyfer oedran (blynyddoedd). O ran y plotio, roedd goddefiant ac roedd angen i'r ymgeiswyr blotio 16 yn gywir i gael 2 farc, ni chafodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr broblemau â hyn.

**Adran B**

Roedd Cwestiynau 10 a 13 yn seiliedig ar gynnwys DD3. Ar gyfer cwestiwn 10, roedd pob rhan yn atgof uniongyrchol o'r fanyleb. Cafodd rhai ymgeiswyr drafferthion i enwi'r pathogen ar gyfer rhan (a) yn gywir ac ni wnaethant gydnabod y moleciwl steroid ar gyfer rhan (ch). Wrth ddisgrifio'r dull trosglwyddo, collwyd marciau oherwydd ni wnaeth yr ymgeiswyr grybwyll bod yn rhaid dod i gysylltiad â'r pathogen neu ag arwyneb wedi'i halogi/heintio – roedd eu hatebion yn rhy amwys. Gwnaeth llawer o ymgeiswyr ddisgrifio dull ar gyfer atal/lleihau trosglwyddo yn llwyddiannus, fel gwisgo sanau neu sychu'r traed/rhwng bysedd y traed yn dda.

© WJEC CBAC Ltd.

Roedd Cwestiynau 11 a 12 yn seiliedig ar gynnwys DD2 yn bennaf. Profodd cwestiwn 12 eu gwybodaeth am y system endocrinaidd gyda chwestiynau adalw uniongyrchol yn rhannau (a)(i)-(iii). Atebwyd y rhannau hyn yn dda gan lawer o'r ymgeiswyr a oedd yn galonogol. Roedd rhan a(iv) yn gofyn i'r ymgeiswyr gymhwyso eu gwybodaeth am osmoreolaeth ac ADH. Roedd diffyg manylder gwyddonol yn atebion yr ymgeiswyr a gollodd farciau iddynt e.e. gwnaethant fethu â rhoi lleoliad lle roedd y dŵr yn cael ei adamsugno iddo, ni wnaethant roi enw'r broses (osmosis) ac yna collwyd y pwynt marcio olaf gan na wnaethant ddisgrifio bod y troeth/wrin o gyfaint isel nac yn grynodedig. Roedd rhan (b) yn gysylltiedig ag uned 2 a phrofion wrodynamig. Ychydig iawn o farciau a roddwyd o gwbl am eu rhannau yma. Roedd yn amlwg nad oedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi adolygu'r gwaith ar gyfer y profion hyn. Pan gafodd marciau eu rhoi, roedd ar gyfer ymgeiswyr a oedd yn sylweddoli yn ystod y profion hyn, bod modd mesur cyfaint y troeth/wrin a byddai cleifion yn cael eu gofyn i stopio troethi yng nghanol eu llif. Mae'r canolfannau a'r ymgeiswyr yn cael eu hatgoffa bod angen iddynt astudio pob agwedd ar y fanyleb a bod modd astudio unrhyw agwedd ar unedau 2 a 3 yn ystod yr arholiad hwn.

Roedd cwestiwn 12 yn seiliedig ar gynnwys o'r system dreulio a moleciwlau biolegol. Rhoddodd bron pob ymgeisydd gynnig ar gwestiwn 12(a), ond ni wnaeth rhai grybwyll gweithred y dannedd na'r tafod felly gwnaethant fethu ag ennill unrhyw farciau. Yn hytrach, rhoesant ddisgrifiadau hyfryd o dreuliad cemegol drwy ensymau, a oedd yn anghywir. Profodd rhan (b) eu gwybodaeth am y ffordd y mae proteinau yn ymddatod/torri i lawr. Atebodd llawer o'r ymgeiswyr asidau amino yn gywir ar gyfer rhan (i) ond yna cawsant drafferth i nodi'r broses fel ‘hydrolysis’. Gwelwyd dryswch yma gydag ymgeiswyr yn nodi ‘adwaith cyddwyso’ yn anghywir. Nododd llawer o ymgeiswyr broteas / pepsin / peptidas / endopeptidas yn gywir ar gyfer enw'r ensym ond roedd gormod yn rhoi'r math anghywir o ensym e.e. amylas/carbohydras yma. Bu rhan (c) yn adran anodd iawn i lawer o ymgeiswyr. Unwaith eto, cawsant drafferth mynegi eu hunain gyda digon o fanylder gwyddonol yma i gael marciau. Gwnaeth llawer o ymgeiswyr roi'r enw peristalsis ar gyfer rhan (i), ond methodd y rhai a oedd yn disgrifio ‘symud bwyd’ â defnyddio'r derminoleg gywir ac ni wnaethant ddisgrifio'r ‘cyfangiadau i wthio/symud y bwyd ymlaen/drwodd’. Ar gyfer rhannau (ii)-(iv), gwnaeth nifer y marciau a roddwyd ostwng yn gyflym. Cafodd ymgeiswyr drafferth yn disgrifio swyddogaethau'r mwcosa, isfwcosa a serosa. Gellir canfod y manylion ar gyfer y rhain yn y canllawiau i athrawon. Roedd yn siomedig bod llawer o ymgeiswyr wedi methu ag ateb y cwestiynau hyn, sydd unwaith eto yn dangos diffyg paratoi.

© WJEC CBAC Ltd.

Dechreuodd Cwestiwn 13 gyda chwestiwn mathemategol. Gwnaeth rhannau (a) a (b) herio gallu'r ymgeiswyr i gyfrifo cymedr (rhan (a)) ac yna defnyddio'r gwerth hwn i gyfrifo amcangyfrif o nifer y bobl. Roedd yn siomedig na allai rhai o'r ymgeiswyr gyfrifo cymedr cywir. Roedd llai yn gallu cyfrifo nifer y bobl gan ddefnyddio eu canran. Caiff y mathau hyn o gwestiynau eu gofyn yn aml ar y fanyleb hon ac ni fyddent wedi bod yn broblem pe bai'r ymgeiswyr wedi paratoi'n dda. Yr hyn a oedd yn fwy amlwg eleni oedd nad oedd cyfrifiannell ar gael i rai ymgeiswyr ar gyfer y cyfrifiadau hyn. Dylai'r canolfannau sicrhau bod stoc o gyfrifianellau ar gael i ymgeiswyr yn ystod yr arholiad. Roedd rhannau (b), (c) a (ch) ar gyfer y cwestiwn hwn yn seiliedig ar gynnwys DD3 a gofynnwyd i'r ymgeiswyr esbonio tueddiadau mewn data a goblygiadau gordewdra. Gwnaeth bron pawb roi cynnig ar y cwestiwn yn rhan (b), a oedd yn galonogol, ond roedd diffyg manylder mewn rhai atebion a methodd llawer o'r ymgeiswyr i ennill y ddau farc yn llawn. Nododd y mwyafrif o'r ymgeiswyr yn gywir bod diffyg ymarfer corff yn ffactor sy'n cyfrannu ond roedd llai yn gallu rhoi ail ffactor dilys e.e. bwyta mwy o siwgr, methu â fforddio bwydydd iach ac ati. Gofynnodd rhan (c) i'r ymgeiswyr nodi cyflwr a disgrifiad ohono am 4 marc. Nododd llawer o'r ymgeiswyr yn llwyddiannus bwysedd gwaed uchel, arthritis neu glefyd y galon/clefyd cardiofasgwlar ond ni chawsant gymaint o farciau am eu disgrifiadau. Pan drafododd yr ymgeiswyr risg gynyddol o drawiad ar y galon, rhoddwyd marciau iddynt. Ar gyfer gorbwysedd, cafodd yr ymgeiswyr drafferth i ddisgrifio bod hyn wedi'i achosi gan y galon yn gweithio'n galetach mewn pobl ordew. Unwaith eto, roedd diffyg manylder penodol yn atebion rhan (ch) a chollodd llawer o'r ymgeiswyr farciau yma. Unwaith eto, roedd atebion fel ‘bwyta llai, deiet cytbwys, ymarfer corff’ yn rhy amwys eleni — mae'r math hwn o gwestiwn yn cael ei ofyn yn aml ac mae'r ymgeiswyr yn cael eu hatgoffa eto eleni y dylent roi atebion mwy penodol – mae ‘mwy o ymarfer corff, bwyta llai o siwgr/braster’ yn atebion mwy addas a fyddai wedi ennill marciau.

Profodd Cwestiwn 14 wybodaeth yr ymgeisydd am gyfnewid nwyon, yn ogystal â chysylltiad ag uned 2 a sbirometreg. Gallai'r ymgeiswyr ddisgrifio'r broses cyfnewid nwyon yn dda gan mwyaf a oedd yn galonogol (cynnwys lefel TGAU ydyw felly ni ddylai fod wedi achosi problem) ond cawsant drafferth gyda rhan (b) ac ychydig iawn enillodd fwy nag un marc am ddisgrifio egwyddorion sbirometreg. Roedd llai yn gallu disgrifio siâp yr ôl ar gyfer rhywun sy'n dioddef o asthma. Unwaith eto, mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn dysgu pob agwedd ar uned 2 oherwydd gallai gael ei phrofi yn uned 1. Yn ogystal, gwnaeth yr ymgeiswyr fethu â mynegi eu hunain yn gywir nac mewn termau gwyddonol wrth ddisgrifio'r olin, ni wnaeth llawer sôn am frigau nac osgled, roedd hyn yn angenrheidiol i ennill unrhyw farciau.

© WJEC CBAC Ltd.

Profodd Cwestiwn 15 eu gwybodaeth am ensymau. Roedd dryswch ymhlith yr ymgeiswyr o ran ble roedd y safle actif – nododd rhai ar y swbstrad a nododd eraill yr ateb cywir ar yr ensym. Roedd diffyg defnydd o'r termau canlynol; cymhlygyn ensym-swbstrad, cyflenwol, gwrthdrawiadau llwyddiannus, egni cinetig drwy'r atebion. Roedd hyn yn siomedig gan mai termau allweddol yw'r rhain sy'n cael eu priodoli i actifedd ensymau. Yn rhan (b)(i), disgrifiodd yr ymgeiswyr yn llwyddiannus sut newidiodd actifedd yr ensym gyda thymheredd ond yna gwnaethant fethu ag esbonio hyn o ran egni cinetig, gwrthdrawiad llwyddiannus a chymhlygion ensym-swbstrad ar gyfer (b)(ii). Ni chafodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr unrhyw broblem wrth ddisgrifio beth sy'n digwydd i'r ensymau pan fyddant yn dadnatureiddio ar gyfer rhan (c), roedd hyn yn galonogol ac yn dangos eu bod wedi deall hyn yn dda. Symudodd rhan (ch) ymlaen i ataliad ensymau, ond ni allai llawer o'r ymgeiswyr ddisgrifio ataliad cystadleuol. Roedd llawer wedi drysu, gan nodi bod yr atalydd yn gyflenwol i'r swbstrad, neu ei fod yr un siâp â'r safle actif – y mae'r ddau ohonynt yn anghywir. Roedd llawer yn gallu nodi bod ataliad anghystadleuol yn wahanol i ataliad cystadleuol gan fod yr atalydd yn rhwymo â phwynt i ffwrdd o safle actif yr ensym/safle alosterig. Wrth gwrs, nid oedd rhai ymgeiswyr yn gwybod hyn, gan nodi'n syml 'nid yw'n cystadlu ar gyfer y safle actif' sy'n rhy amwys. Lluniwyd y cwestiwn olaf i brofi dealltwriaeth yr ymgeisydd o ataliad a nododd sawl ymgeisydd yn llwyddiannus y byddai cynyddu crynodiad swbstrad yn gostwng ataliad cystadleuol ac ni fyddai'n cael effaith ar ataliad anghystadleuol. Roedd yna rai atebion wedi'u hystyried yn dda iawn a oedd yn disgrifio'r effaith ar actifedd yr ensym, ond nid oedd y rhain yn ateb y cwestiwn ac felly nid oedd modd eu gwobrwyo.

Ar y cyfan, roedd safon yr atebion eleni yn is na'r hyn a oedd wedi'i weld mewn cyfresi blaenorol. Roedd mwy o gwestiynau heb eu hateb ac roedd yr ymgeiswyr yn cael trafferth gyda chwestiynau na fyddent wedi achosi unrhyw broblemau fel arfer.

© WJEC CBAC Ltd.

**GWYDDOR FEDDYGOL**

**Lefel 3**

**Haf 2024**

**UNED 2**

**Trosolwg o'r Uned**

Roedd rhywfaint o waith o safon uchel iawn ac roedd llawer o'r penderfyniadau asesu'n ddilys ar y cyfan ac yn cyd-fynd â phenderfyniadau'r cymedrolwr. Mae'n ymddangos nad yw rhai canolfannau'n siŵr beth sydd ei angen ar gyfer rhai o'r meini prawf asesu. Edrychwch ar yr holl wybodaeth ar-lein – gellir dod o hyd i'r fanyleb a chanllawiau'r athrawon ar y wefan Gwyddor Feddygol.
Gellir canfod Asesiad Mewnol Uned 2 a sawl enghraifft o waith yr ymgeiswyr ar y wefan ddiogel.

Nid oedd rhywfaint o'r gwaith papur wedi'i gwblhau; roedd rhifau'r ganolfan a'r ymgeisydd ar goll ar daflenni cofnodi marciau ac roedd taflenni asesu mewnol gyda marciau wedi'u trosglwyddo'n anghywir o'r sgriptiau. Llwyddodd y rhan fwyaf o'r canolfannau i uwchlwytho'r holl waith yn y drefn gywir ar un ddogfen ac mae'r cymedrolwyr yn ddiolchgar iawn. Nid yw cyflwyno gwaith mewn sawl dogfen yn dderbyniol, yn enwedig pan gânt eu huwchlwytho mewn trefn ddigyswllt; a wnewch chi uwchlwytho fel un ddogfen – mae cael gormod o rannau yn golygu y gall y cymedrolwr golli rhywbeth ac mae'n faich ar amser y cymedrolwr a'r ganolfan.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

Ni ellir rhoi marciau i unrhyw MPA heb dystiolaeth fanwl, ysgrifenedig a pherthnasol (rhaid i'r gwaith fod yn waith gwreiddiol yr ymgeisydd ei hun, yn ei eiriau ei hun), i gefnogi'r gwaith o ddyfarnu'r marciau. Mae MPA3.2 a 3.3 yn gofyn am dystiolaeth ar ffurf taflen asesu a chofnod o'r canlyniadau a gofnodwyd, o bosibl y tabl canlyniadau gwreiddiol, neu lungopi/ffotograff.

Roedd MPA1.1 yn cael ei orfarcio'n aml oherwydd ni wnaeth yr ymgeiswyr roi “esboniad manwl gywir a chydlynol sy'n dangos ymresymu manwl o egwyddorion prawf mesur ffisiolegol penodol”. Yn benodol, ni wnaethant ddisgrifio'r ffordd yr oedd y cyfarpar yn gweithio, ond yn lle hynny, dim ond dull rhoddwyd ganddynt, nid yw hynny yr un peth. Mae'r dulliau <u>manwl</u> yn cyfrannu at farciau yn nhasg 2, nid eu taflenni. Gweler y deunydd enghreifftiol ar-lein i weld enghreifftiau da o'r MPA hwn. Er enghraifft, dylai'r ymgeiswyr fod yn nodi union safle'r cyff mewn perthynas â'r rhydweli breichiol a sut mae'r cywasgiad hwn yn galluogi ar gyfer cadarnhau'r pwysedd gwaed systolig a diastolig, hyd yn oed gyda system awtomataidd (mae hyn yn golygu cyfeirnodi'r ‘seiniau’ sy'n cael eu synhwyro gan y monitor pwysedd gwaed/gweithiwr iechyd proffesiynol) ar gyfer pwysedd systolig a diastolig. Roedd gormod o lawer o gopïo a gludo yn uniongyrchol o wefannau asthma/pwysedd gwaed/ECG yn digwydd o hyd.

Yn aml, roedd unedau o fathau amrywiol yn cael eu hysgeintio drwy'r gwaith fel conffeti. Mae angen i'r unedau fod yn gywir, ac os oedd unrhyw ddata'n cael eu dyfynnu/mewn tablau/wedi'u trin a thrafod, dylai'r unedau cywir fod gyda nhw.

© WJEC CBAC Ltd.

MPA 1.2: Ar gyfer y band uchaf, rhaid i'r ymgeisydd roi esboniad cywir a chydlynol o arwyddocâd data a gafwyd o dri phrawf mesur ffisiolegol, sy'n golygu y bydd angen iddynt ddyfynnu niferoedd/darlleniadau a oedd yn arwydd o'r problemau meddygol sy'n gysylltiedig ag unrhyw ganlyniadau uwch ac is na'r norm. Ni roddir marciau am gopïo a gludo siartiau o'r rhyngrwyd heb eu cyfeirnodi ac ni roddir marciau am ‘a bydd y meddyg yn trafod eich canlyniadau gyda chi’ gan mai dyna yw pwynt y daflen.

Mae MPA 1.3 yn gofyn am ddisgrifiad clir a manwl am nifer o gyfyngiadau mesur ffisiolegol a dylai gynnwys cywirdeb profion yn ogystal ag arteffactau, sensitifrwydd a gwallau mesur. Dylent roi rhyw arwydd o'r effaith y mae cyfyngiadau yn eu hachosi; ydy'r niferoedd yn codi neu'n gostwng? Nid yw dweud eu bod yn ‘effeithio’ ar y canlyniadau yn cyrraedd y band uchaf.

Yn aml, roedd MPA 2.1 a 2.2 yn cael eu gorfarcio. Dylai cyfrinachedd gynnwys crybwyll codau ymarfer (e.e. cod ymarfer y GIG), sut bydd yr ymgeiswyr eu hunain yn diogelu eu gwybodaeth, yn hysbysu cleifion ac yn darparu gwybodaeth os gofynnir amdani a phryd mae modd datgelu gwybodaeth. I gael y band uchaf, mae angen i hyn fod yn fanylach nag ambell i frawddeg a gall sylwadau a wnaed gan yr aseswr yn ystod MPA 3.2 gefnogi hyn.

Rhaid i ddisgrifiadau o'u hymddygiad tuag at gleifion (MPA 2.2) gynnwys empathi, tôn a defnydd o iaith briodol. Yn y byd go iawn, ni fyddant yn gwybod o reidrwydd pwy fydd yn cerdded trwy'r drws a bydd angen iddynt fod yn ymwybodol o bob math posibl o gleifion (nam ar y golwg, nam ar y clyw, awtistiaeth, clefyd Alzheimer/dementia fasgwlar, yr henoed, plant, pobl â nam corfforol, anawsterau dysgu/ymddygiad, beichiog, mewn profedigaeth.) Rhaid iddynt ddisgrifio sut y byddant yn ymddwyn tuag at ddarpar gleifion pan fyddant yn cynnal eu profion (rhan o'u cynllun).

MPA3.1: Ar gyfer 3.1, dylent nodi pob agwedd allweddol ar gynllun i gynnal y 2 brawf (nid yr ECG – mae hyn eisoes wedi'i gwblhau ar eu cyfer). Dylent nodi'r wybodaeth i'w chasglu (holiaduron), gweithdrefnau (yn ddigon manwl fel y gallai rhywun gynnal y prawf yn fanwl gywir h.y. ble yn union y mae angen i bethau fynd a chyfeiriadau at ailadrodd) a'r cyfarpar angenrheidiol (hysbysu technegwyr o'u gofynion). Mae angen iddynt hefyd drefnu ystafelloedd addas a hysbysu cleifion ynghylch amseru a lleoliad. Dylid gwneud hyn i gyd mewn fformat hawdd ei ddilyn. Mae'n synhwyrol iddynt ddyfeisio tabl canlyniadau yma, gydag unedau, y mae modd ei lenwi ar ddiwrnod y prawf. Dylent baratoi eu holiaduron a dylid cyflwyno'r holl waith hwn gyda'u cynllun er mwyn i gymedrolwr ei weld fel tystiolaeth. Nid oes angen i holiaduron fod yn rhy hir – dim ond rhai cwestiynau byr a pherthnasol, nid hanes meddygol llawn a heb ofyn gormod ar y lefel hon. Dim ond un y mae angen ei ddarparu, mae modd crynhoi'r atebion ar y ffurflen ar gyfer cleifion A a B. Rhaid dangos tystiolaeth o'r holl waith, ar wahân i MPA 3.2, sef yr hyn y mae'r aseswr yn ei weld ar y diwrnod gyda'r profion ymarferol.

Mae MPA 3.3 yn gofyn i'r ymgeiswyr ddefnyddio unedau priodol ar gyfer y band canol ac uchaf (fel y dangoswyd yn eu tabl canlyniadau).

Mae MPA 4.1 yn gofyn am brosesu data, gyda thystiolaeth lawn yn dangos sut maent wedi cyflawni'r fathemateg ar gyfer y band uchaf. Rhaid i hyn ddangos yn glir y defnydd cywir o ffigurau ystyrlon. Rhaid i guriadau calon fod yn rhifau cyfan ac mae pwysedd gwaed yn cael ei fynegi fel rhifau cyfan bob amser, ond rhaid iddynt ddangos talgrynnu cywir, os oes angen hynny yn fathemategol. Dylid cyflwyno copi o'r canlyniadau hyn gyda gweddill y gwaith. Mae hyn yn cynnwys eu 4 set o ddata (anterth llif a phwysedd gwael claf A ac anterth llif a phwysedd gwaed claf B) yn ogystal ag olion ECG, gan ddangos y cyfrifiadau. Dylid dangos yr holl waith mathemateg yn glir gan gyfeirio at sut maent wedi ymdrin â ffigurau ystyrlon a bod ganddynt yr unedau cywir.

© WJEC CBAC Ltd.

Mae MPA 4.2 yn cysylltu'n agos ag MPA 1.2. Dylid cymharu data â'r normau disgwyliedig, gan ystyried oed, rhywedd, ethnigrwydd, hanes y claf. Rhaid iddynt ystyried cysylltu eu canfyddiadau â ffisioleg ddisgwyliedig a phatholeg bosibl ac unrhyw ansicrwydd yn eu casgliadau.

MPA4.3: Ar gyfer y band uchaf, dylai eu gwerthusiad ystyried dilysrwydd eu data (atgynyrchioldeb/ystod/hyder ynddynt) a phresenoldeb arteffactau neu newidynnau sy'n effeithio ar eu data. (Cysylltu ag MPA 4.2).

**Marcio tasgau**

Mewn rhai canolfannau, roedd y broses o farcio MPA yn rhy hael, felly ni wnaeth y cymedrolwyr gytuno â'r marciau; rhoddwyd marciau i bron pawb pan na wnaethant gyflawni'r holl ofynion ar gyfer band penodol. Byddai'n ddefnyddiol cael y fanyleb a'r bandiau perfformiad ar gyfer pob MPA wrth law wrth farcio, felly ni roddir marciau i ymgeiswyr pan nad oes gwaith ar eu sgript.

Mewn rhai canolfannau, roedd dau nodwr neu fwy yn gweithio i safonau cwbl wahanol. Yn aml, nid oedd tystiolaeth o unrhyw ymgais i gymedroli'r sgriptiau hyn yn fewnol a arweiniodd at fethu â chymharu marciau'r ymgeiswyr. Argymhellir yn gryf fod pob nodwr yn mynd trwy bob sgript fel ymarfer tîm cymedroli, er mwyn i bawb wybod beth sy'n ofynnol ar gyfer yr holl feini prawf band perfformiad.

© WJEC CBAC Ltd.

## GWYDDOR FEDDYGOL

## Lefel 3

## Haf 2024

## UNED 3

### Trosolwg o'r Uned

Yn gyffredinol roedd safon y gwaith a gyflwynwyd yn dda ac roedd yr asesiadau gan y canolfannau'n gywir ar y cyfan ac roedd y cymedrolwyr yn cytuno â nhw. Roedd yn braf gweld bod llawer o ganolfannau wedi ymateb i'r sylwadau a wnaethpwyd mewn adroddiadau blaenorol gan gymedrolwyr.

Roedd y gwaith gweinyddol yn gywir gan fwyaf, a'r ymgeiswyr wedi llofnodi taflenni dilysu. Defnyddiodd y rhan fwyaf o'r canolfannau fersiwn diweddaraf y daflen ddilysu sy'n cynnwys cyfeiriad at ddeallusrwydd artiffisial. Mae'n hanfodol defnyddio'r fersiwn hwn yn y dyfodol.

Mae'r broses gymedroli'n cynnwys defnyddio'r Daflen Cofnodi Marciau i wirio yn erbyn gwaith ymgeiswyr ac unrhyw anodiadau sydd wedi'u hysgrifennu ar yr ymchwiliad. Mae'r broses hon gryn dipyn yn well pan fydd gwaith yr ymgeisydd yn cael ei uwchlwytho fel un ddogfen gyda phob tudalen wedi'i rhifo, yn wynebu'r un cyfeiriad a heb unrhyw dudalennau gwag diangen.

Mae'n werth nodi yma fod yr asesiad yn cynnwys hyd at bedair tasg. Tasgau unigol yw pob un dasg ac ni chaniateir cydweithio. Mae cyfyngiad amser ar bob tasg, a dylai'r ymgeiswyr fod yn ymwybodol o'r hyn y mae modd ei gyflawni o fewn yr amserlen hon. Gellir canfod mwy o wybodaeth ar y daflen Crynodeb i Ddysgwyr. Nid yw copïo a gludo gwybodaeth o'r rhyngrwyd neu ddeallusrwydd artiffisial yn deilwng o farciau. Mae rhai ymgeiswyr yn cynnwys gormod o wybodaeth gyffredinol nad yw'n berthnasol i'w hymchwiliad eu hunain.

### Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

**Tasg 1: Cynllunio’r Ymchwiliad.**
Dylid cwblhau hyn cyn i'r ymgeiswyr ddechrau ar y tasgau eraill.

MPA 1.1: Mae'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn cyflawni marc Band 3 yma, gan roi disgrifiadau clir o'u newidynnau. Nid oes angen diffinio'r gwahanol fathau o newidynnau. Fel y crybwyllwyd mewn adroddiadau cynharach, mae'n well cyfyngu nifer y grwpiau yn y newidyn annibynnol i ddau gan fod hyn yn gwneud y dadansoddi sy'n dilyn yn symlach. Mae nodi ‘agweddau’ fel y newidyn dibynnol yn rhy amwys ac mae angen trafod yr hyn yr ymchwilir iddo ymhellach. Dylai'r ymgeiswyr gynnwys disgrifiad o sut y bydd eu newidynnau allanol yn effeithio ar eu hymchwiliad.

MPA 1.2: Dylai'r ymgeiswyr ysgrifennu rhagdybiaeth glir ar gyfer eu hymchwiliad. Mae uchafswm o 4 marc ar gael am gyfiawnhau'r rhagdybiaeth. Er nad oes marciau am nodi'r rhagdybiaeth, dylai'r ymgeiswyr esbonio pam maent yn credu bod y rhagdybiaeth yn gywir. Mae marc Band 3 yn gofyn am gyfeirio at rywfaint o ymchwil flaenorol a gyflawnwyd gan yr ymgeisydd er mwyn ysgrifennu eu rhagdybiaeth. Er enghraifft, gallai hyn fod ar ffurf papur ymchwil neu erthygl papur newydd. Nid oes angen cyflwyno unrhyw ddata eilaidd.

MPA 1.3: Mae angen i'r ymgeiswyr ddisgrifio'u dull samplu dethol yng nghyd-destun eu hymchwiliad ynghyd â manteision ac anfanteision eu dull dethol. Nid oes angen disgrifio dulliau samplu eraill. Mae rhai ymgeiswyr yn drysu hapsamplu gyda samplu cyfleus.

© WJEC CBAC Ltd.

MPA 1.4: Mae pob ymgeisydd yn dewis holiadur fel ei ddull ymchwil. Er mwyn cyflawni marc Band 3, gallant gymharu manteision ac anfanteision holiaduron wyneb yn wyneb gyda rhai ar-lein; disgrifio'r math o gwestiynau fyddant yn eu defnyddio i greu data meintiol ac ansoddol a chyfeirio at y defnydd o gwestiynau agored a chaeedig; nodi'r ffordd y gallant ddefnyddio cwestiynau i gefnogi'r newidynnau a ddisgrifiwyd ganddynt yn MPA 1.1; nodi'r ffordd y gallant ddefnyddio'r holiaduron i ddarparu data dilys/dibynadwy i'w dadansoddi.

MPA 1.5: Mae rhai ymgeiswyr yn colli marciau yma am beidio â defnyddio'r ffurflen, sy'n arwain atynt yn gadael rhai o'r ymatebion sy'n ofynnol allan.

**Tasg 2: Casglu gwybodaeth**
MPA2.1: I gyflawni Band 3, mae angen i'r cynllun fod yn ddigon manwl i gael ei ddilyn gan drydydd parti. Er enghraifft, nid yw'n ddigon dweud y caiff yr holiadur ei rannu. Sut caiff ei rannu? Mae angen i'r cynllun hefyd gyfeirio at sut y bydd y data'n cael eu dadansoddi. Mae rhai ymgeiswyr yn dal i golli'r holl farciau sydd ar gael yma drwy beidio â chynnwys cynllun.

MPA 2.2: Mae'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn cyflawni marc Band 3 yma, gan lunio holiaduron sy'n cael eu cysylltu'n glir â'u rhagdybiaeth a newidynnau. Mae ymgeiswyr gwannach yn tueddu i lunio holiaduron sy'n mynd lawer yn rhy hir ac yn cynnwys cwestiynau amherthnasol.

MPA 2.3: Mae angen o leiaf 15 ymateb ar gyfer pob categori o'r newidyn annibynnol er mwyn cyflawni marc Band 3. Dylid annog ymgeiswyr i gasglu eu data crai mewn tablau sydd wedi'u labelu'n addas. Mae sgrinluniau o ddata o holiaduron ar-lein yn anodd eu hasesu a dylid eu hosgoi.

**Tasg 3: Dadansoddi'r data**
MPA 3.1: Mae ymgeiswyr gwell yn defnyddio ac yn esbonio'r termau a ddefnyddir wrth ddadansoddi data. Mae'r dystiolaeth ar gyfer hyn i'w chanfod yn aml yn nhasg 4 lle mae'r ymgeiswyr yn cyfathrebu canlyniadau eu hymchwiliad mewn ffordd sy'n addas ar gyfer cynulleidfa gymysg o wyddonwyr a phobl nad oeddent yn wyddonwyr. Mae gormod o ymgeiswyr yn parhau i golli marciau yma dim ond am gynnwys rhestr o ddiffiniadau yn hytrach na defnyddio'r derminoleg yn briodol yn eu hymchwiliad.

MPA 3.2: Mae'n ddymunol nodi bod mwy o ymgeiswyr yn cyflawni marciau yma am esbonio'u dewis o ddulliau mathemategol/ystadegol i ddadansoddi data.

MPA 4.1: Yn unol ag MPA 3.2, mae mwy o ymgeiswyr bellach yn defnyddio prawf ystadegol i ddadansoddi'r data. Mae ymgeiswyr gwell yn dangos dealltwriaeth dda o ganlyniad y prawf drwy ei ddefnyddio i ysgrifennu casgliad dilys. (MPA 4.2.) Fel y soniwyd mewn adroddiad blaenorol, mae'n dderbyniol i ymgeiswyr ddefnyddio cyfrifianellau ar-lein i greu'r canlyniad ar gyfer eu prawf ystadegol. Fodd bynnag, mae rhai ymgeiswyr yn colli marciau yma drwy beidio â dangos pa gwestiwn y mae'r data maent yn eu dadansoddi yn perthyn iddo.

MPA 4.2: Mae ymgeiswyr gwell yn cyflawni marc Band 3 yma drwy gysylltu eu casgliadau yn glir â'r dystiolaeth maent wedi'i chasglu a'u rhagdybiaeth. Mae ymgeiswyr gwannach yn tueddu i ailadrodd yr hyn maent wedi'i ysgrifennu mewn tabl neu wedi'i luniadu mewn graff heb unrhyw ymgais i ddadansoddi. Mae rhai ymgeiswyr yn cael marciau am gyflawni prawf ystadegol (MPA 4.1), ond nid ydynt yn ei ddefnyddio i ddod i gasgliadau.

MPA 4.3: Mae gormod o ymgeiswyr o hyd yn hepgor y MPA hwn o'u gwaith ysgrifenedig. Mae modd cyflawni marc Band 3 drwy gyfeirio at nifer y bobl yn y sampl, boed y sampl yn cynrychioli'r boblogaeth ai peidio, rhagfarn, dibynadwyedd y data a gasglwyd ynghyd ag unrhyw welliannau posibl naill ai i'r weithdrefn neu'r data a gasglwyd.

© WJEC CBAC Ltd.

MPA 4.4: Mae angen tystiolaeth glir fod cyfrifiad wedi'i wneud i gyflawni marc ar gyfer yr MPA hwn. Mae copïo fformiwla yn annigonol. Mae rhai ymgeiswyr yn colli marciau drwy golli cyfleoedd i ddefnyddio nodiant mathemategol yn briodol.

**Tasg 5: Paratoi cyflwyniad**

MPA 5.1: Mae'r mwyafrif helaeth o'r ymgeiswyr yn sgorio'n dda yma gyda defnydd da o dablau a graffau yn eu cyflwyniad. Fodd bynnag, fel mewn adroddiadau blaenorol, mae gan lawer o graffau echelinau heb eu labelu sy'n cyfyngu ar y Band sydd ar gael i 2.

MPA 5.2: Mae'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn cyflwyno cyflwyniadau o ansawdd da, ar ffurf PowerPoint gyda nodiadau gan siaradwyr. Mae'n siomedig bod rhai ymgeiswyr yn hepgor y cyflwyniad, gan golli marciau yr oedd modd eu cael yn hawdd.

Atgoffir canolfannau bod gwaith enghreifftiol ar gyfer yr uned hon ar gael i'w weld ar wefan ddiogel CBAC ynghyd â chanllawiau ychwanegol am farcio. Sylwch fod yr aseiniad e-sigarét wedi'i dynnu'n ôl. Mae'r aseiniad 'Pigiad Ffliw' yn cynnwys copi diwygiedig o'r pro fforma Gwerthusiad Moesegol. Rhaid ymgynghori â'r Swyddog Pwnc cyn gwneud unrhyw addasiadau i'r aseiniad hwn.

**Marcio tasgau**

Yn gyffredinol roedd safon yr asesiadau gan y canolfannau'n gywir ar y cyfan ac roedd y cymedrolwyr yn cytuno â nhw. Roedd yn braf gweld bod llawer o ganolfannau wedi ymateb i'r sylwadau a wnaethpwyd mewn adroddiadau blaenorol gan gymedrolwyr.

Dylai'r Daflen Cofnodi Marciau gynnwys rhifau tudalennau i ddangos ble rhoddwyd y marciau ar gyfer y meini prawf asesu. Dylai'r anodiadau neu'r sylwadau ddangos pam rhoddwyd marc penodol.

© WJEC CBAC Ltd.

## GWYDDOR FEDDYGOL

## Lefel 3

## Haf 2024

## UNED 4

### Trosolwg o'r Uned

Mae Uned 4 yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth am wyddor meddyginiaethau, a sut maen nhw'n rhyngweithio â systemau'r corff. Mae hefyd yn cyflwyno canser a geneteg canser yn ogystal â thriniaethau addas ac opsiynau newydd ar gyfer trin canser. Bydd dysgwyr yn datblygu sgiliau cydweithio a chyflwyno yn ogystal â gweithio'n annibynnol i wneud gwaith ymchwil a chynhyrchu gwybodaeth am feddyginiaethau a gwybodaeth am ganser.

Mae'r uned hon yn werth 25% o Ddiploma y cymhwyster ac mae wedi'i rhannu'n dair tasg.

Gweler yr aseiniad enghreifftiol ar gyfer Uned 4 a geir ar wefan ddiogel CBAC am fanylion llawn gofynion yr asesiad ar gyfer pob tasg.

### Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

### Tasg 1: Cyflwyniadau i Staff Nyrsio

Mae tystiolaeth ar gyfer y dasg hon yn cynnwys copi o sleidiau pob cyflwyniad (mae un i bob grŵp yn ddigon cyn belled â'i bod hi'n glir pwy oedd yn gweithio gyda'i gilydd), nodiadau siaradwr gan bob ymgeisydd sy'n dangos yn glir beth oedd eu cyfraniad at y cyflwyniad, cofnod arsylwi wedi'i gwblhau'n llawn gan yr aseswr a disgrifiad myfyriol wedi'i gwblhau gan yr ymgeisydd.

Disgwylir i ymgeiswyr weithio mewn grwpiau, lle y bo'n bosibl, er mwyn cwblhau dau gyflwyniad i staff nyrsio. Roedd y deunyddiau cyflwyno a gyflwynwyd eleni o safon uchel ac roedd yn amlwg yn bennaf lle roedd ymgeiswyr wedi ennill marciau. Roedd aseswyr wedi anodi gwaith lle roedd yn briodol ac wedi cwblhau'r cofnod arsylwi yn y mwyafrif helaeth o achosion. Darparwyd nodiadau siaradwyr hefyd ac, felly, roedd yn amlwg pa ran roedd pob ymgeisydd wedi'i chyflwyno. Mae hon yn enghraifft o arfer dda.

Pe na bai ymgeisydd wedi darparu cyflwyniad manwl na sylw am y nodiadau siaradwr ar gyfer MPA, mae'n dderbyniol i'r aseswr holi'r ymgeisydd am wybodaeth bellach/ eglurhad ac yna nodi hyn fel tystiolaeth ar y cofnod arsylwi.

Wrth gwblhau eu cyflwyniadau, gofynnir i ymgeiswyr yn benodol roi adroddiad myfyriol am eu cyfraniad at waith tîm (MPA4.3). Er y gall yr aseswr wneud sylwadau ar hyn ar y cofnod arsylwi ac y dylai wneud hynny, mae'r myfyrio yn ddarn penodol o dystiolaeth fel y'i rhestrir yn yr aseiniad enghreifftiol. Felly, disgwylir i'r adroddiadau myfyriol hyn gael eu cynnwys gyda chyflwyniad a deunyddiau siaradwyr yr ymgeisydd ynghyd â'r cyfnod arsylwi. Ni ddylai aseswyr roi unrhyw farciau os nad yw'r adroddiad myfyriol wedi'i gyflwyno. Nodwyd bod llawer o ganolfannau wedi hepgor yr adroddiadau myfyriol hyn eleni ond eu bod wedi rhoi marciau i'w hymgeiswyr am eu cyfraniadau o hyd. O ganlyniad, roedd gormod o farciau wedi'u rhoi gan rai canolfannau ar gyfer y maen prawf asesu hwn.

© WJEC CBAC Ltd.

Gwnaeth y mwyafrif helaeth o'r canolfannau cynnwys cofnod arsylwi wedi'i gwblhau, ond, roedd nifer bach o hyd a oedd naill ai heb gynnwys y cofnod arsylwi neu wedi darparu cofnod arsylwi gwag. Dylid cwblhau'r cofnod arsylwi'n llawn gan roi gwybodaeth am gyrhaeddiad yr ymgeisydd ar gyfer pob MPA.

**Tasg 2: Gwybodaeth am Bedair Meddyginiaeth.**

Gofynnir i ymgeiswyr gyflwyno gwybodaeth am bedair meddyginiaeth wahanol ar gyfer tasg 2. Dylai'r meddyginiaethau hyn dargedu tri chlefyd/cyflwr sy'n effeithio ar dair o systemau'r corff a restrir yn y canllawiau i athrawon a dylai'r bedwaredd meddyginiaeth fod yn un sy'n targedu cyfrwng/microb achosol e.e. bacteria, firws neu ffyngau.

Dylid dewis meddyginiaethau sy'n cael eu defnyddio i drin cyflwr ac nid meddyginiaeth ataliol, e.e. nid pilsen atal cenhedlu na brechlyn Gwelwyd mewn nifer bach o ganolfannau eto eleni fod meddyginiaethau ataliol wedi'u dewis; nid yw'r rhain yn caniatáu i ymgeiswyr gyflawni'r holl feini prawf asesu a dylid annog ymgeiswyr i beidio â'u defnyddio nhw ar gyfer y dasg hon.

Fel y nodwyd mewn cyfresi blaenorol, mae'n berffaith dderbyniol i ganolfannau ddarparu rhestr o feddyginiaethau fyddai'n addas a gadael i ymgeiswyr ddefnyddio'r rhain; fel hyn, bydd gan yr ymgeiswyr y potensial i gyflawni'r holl bwyntiau marcio. Byddai hefyd yn berffaith dderbyniol bod yr holl ymgeiswyr o ganolfan wedi cael gwybodaeth feddygol am yr un cyffuriau.

Diolch yn fawr i nifer mawr o'r canolfannau oedd wedi cymhwyso'r canllawiau marcio yn gyson ac yn deg wrth asesu'r dasg hon. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod rhai canolfannau wedi cael trafferth eto i asesu tasg 2. O ganlyniad, roedd llawer o'r canolfannau hyn wedi rhoi gormod o farciau am y dasg hon. Dylai fod tystiolaeth o MPA penodol i'w gweld ar draws pob taflen (heblaw MPA2.3) i roi marciau yn y band uchaf. Anogir canolfannau i gynhyrchu grid marcio wrth asesu i nodi bod pob MPA wedi'i weld a pha mor fanwl cyn rhoi marc mewn band.

Rhoddwyd marciau mewn sawl achos ar gyfer MPA42, y cyfiawnhad ar gyfer y dull cyfathrebu, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth wedi'i chynnwys. Fel MPA4.3, os nad yw'r ymgeisydd wedi rhoi cyfiawnhad ni ellir rhoi marciau. Mae angen i'r manylder yn y cyfiawnhad hwn gynnwys rhesymu hefyd ynghylch pam mae'r ymgeisydd wedi dewis y dull hwn ac nid un arall. Gellir rhoi uchafswm o bedwar marc os nad yw ymgeiswyr yn esbonio pam nad ydyn nhw wedi dewis podlediad er enghraifft yn lle taflen.

MPA 2.1: Yn aml, roedd diffyg manylder yn yr esboniadau a ddarparwyd mewn perthynas â sail foleciwlaidd gweithrediad meddyginiaeth. Rhaid i'r ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth am ryngweithiadau derbynwyr cyffuriau ar gyfer pob meddyginiaeth a'r ffyrdd posibl y mae'r feddyginiaeth yn gweithio. Rhaid i'r rhain fod yn amlwg ar gyfer y wybodaeth am bob meddyginiaeth er mwyn rhoi marciau'r band uchaf. Pan fydd rhannau wedi'u hepgor dylid lleihau marciau yn unol â hynny.

MPA 2.2: Dylai ymgeiswyr gyfeirio'n uniongyrchol at systemau'r corff y mae'r feddyginiaeth yn effeithio arnynt yn hytrach na dim ond trafod yr organ unigol y mae'r feddyginiaeth yn effeithio arno. Ceir rhestr gynhwysfawr o systemau'r corff yn y fanyleb a byddai angen i ymgeiswyr ddewis tair system wahanol yn y corff er mwyn ennill marciau'r band uchaf.

© WJEC CBAC Ltd.

MPA 2.4: Yn aml, ni wnaeth ymgeiswyr esbonio'n addas nac yn ddigon manwl pam gall meddyginiaethau golli eu heffeithiolrwydd ar gyfer **pob un** o'r meddyginiaethau a drafodir. Os nad yw'r feddyginiaeth y mae'r ymgeisydd yn ei hastudio yn colli ei heffeithiolrwydd, yna mae'n briodol nodi hyn yn eu gwybodaeth feddygol. Roedd dryswch yma eleni gyda chynifer o aseswyr yn rhoi marciau ar gyfer MPA2.4 pan drafododd yr ymgeiswyr hanner bywyd y cyffur neu'r cyffur yn treulio. Nid dyma beth mae'r maen prawf asesu yn asesu. Mae angen i'r ymgeiswyr drafod pethau fel goddefedd i gyffuriau ac ati ar gyfer y marciau hyn.

MPA 2.5: Rhoddodd aseswyr farciau uchel eleni eto am restri o gyffuriau sy'n rhyngweithio â'r feddyginiaeth. Nid yw hyn yn ddigonol. Rhaid cymharu'r ffordd y mae'r meddyginiaethau yn rhyngweithio â'i gilydd, p'un a yw'r effeithiau yn rhai cadarnhaol neu negyddol.

MPA 2.7: Yn aml, methodd ymgeiswyr ag esbonio'n glir **sut** mae adweithiau anffafriol i feddyginiaethau yn digwydd. Yn lle hynny, dim ond rhestr o adweithiau anffafriol posibl a ddarparwyd ganddynt. Os mai dim ond rhestr o adweithiau anffafriol/sgil-effeithiau a ddarperir, dim ond dau farc ym mand 1 y caiff ymgeiswyr eu hennill ar gyfer y maen prawf asesu hwn.

Pan fydd ymgeisydd ond wedi ysgrifennu am dri chyffur gwahanol, ni all gael marciau'r band uchaf am unrhyw un o'r MPA ar wahân i MPA2.3, ar yr amod ei fod wedi cynnwys cyffur gwrth-ficrobaidd. Roedd canolfannau'n rhoi marciau'r band uchaf pan oedd llai na phedair taflen yn cael eu cynhyrchu gan yr ymgeisydd. Mae hyn yn llawer rhy hael.

**Tasg 3: Gwybodaeth am ganser.**
Mae gofyn i ymgeiswyr gyflwyno gwybodaeth am ganser ar gyfer tasg 3. Roedd ansawdd y dasg hon yn dda iawn eto eleni, ar y cyfan, gyda'r mwyafrif o'r canolfannau yn deall y briff yn dda ac ymgeiswyr yn cynhyrchu gwaith o safon dda.

Gwnaeth rhai canolfannau farcio'r dasg hon yn hael unwaith eto eleni a dylent sicrhau yn y dyfodol, wrth roi marciau bandiau uwch, fod y wybodaeth a ddarparwyd yn ddigon manwl.

MPA 3.1: Unwaith eto eleni, gwelwyd bod MPA3.1 yn cael gormod o farciau gan nifer bach o ganolfannau. Er mwyn cyrraedd y band marciau uchaf yma, roedd rhaid i ymgeiswyr gynnwys gwybodaeth ddigon manwl i fodloni'r holl bwyntiau yn y fanyleb/ canllawiau marcio. Dylid cosbi unrhyw hepgoriadau o'r rhestr hon ac ni fyddai'r ymgeisydd yn gallu ennill 4 marc.

MPA 3.3: Os rhoddir marciau'r band uchaf i ymgeiswyr, yna mae'n rhaid iddynt ddisgrifio'r pum opsiwn triniaeth a restrir yn y fanyleb. Pan na fydd ymgeiswyr wedi disgrifio'r amrywiaeth lawn yn ddigon manwl, dylid rhoi marciau iddynt yn unol â hynny. Roedd llawer o ganolfannau'n rhoi 6 marc am wybodaeth nad oedd yn ddigon manwl ac nad oedd yn ymdrin â'r holl opsiynau ar gyfer triniaeth sydd ar gael. Byddai'n rhesymol i dri opsiwn triniaeth sydd wedi'u disgrifio'n dda allu ennill pedwar marc, ond ni fyddai'n bosibl rhoi mwy na hyn. Roedd niferoedd cynyddol o ymgeiswyr yn ysgrifennu rhestri hir o fanteision ac anfanteision ar gyfer yr opsiynau trin yma, nid oes angen y rhain ar gyfer y maen prawf asesu a dylid atal ymgeiswyr rhag gwneud hyn gan ei fod yn defnyddio'u hamser asesu pan na roddir marciau am y gwaith.

MPA 3.4: Roedd y maen prawf asesu hwn wedi gwella cryn dipyn eleni gyda llawer mwy o'r ymgeiswyr yn rhoi ymgais ar asesu'r opsiynau trin newydd. Roedd rhai aseswyr yn dal i farcio disgrifyddion o'r triniaethau newydd yn hael, ond roedd y rhain i weld yn llawer llai na'r arfer. Pan na fydd unrhyw asesiad wedi'i gynnal, ni ddylid rhoi marciau uchel i ymgeiswyr. Roedd enghreifftiau da ar gyfer yr MPA hwn yn cynnwys cymharu manteision/ anfanteision pob un o'r opsiynau triniaeth newydd.

© WJEC CBAC Ltd.

MPA 4.1: Rhoddwyd marciau yma am y dull o gyfleu'r wybodaeth am ganser. Mae rhai canolfannau'n rhoi marciau uchel iawn am waith na fyddai'n cael ei ystyried yn briodol iawn. Fel y nodwyd mewn adroddiadau blaenorol, bydd canolfannau yn cael eu cosbi am fod yn rhy hael wrth farcio'r maen prawf asesu hwn. Gwelwyd bod rhai aseswyr unwaith eto eleni yn rhoi'r 9 marc llawn am waith oedd ddim wedi'i fynegi'n effeithiol. Rhoddwyd 8/9 marc ar gyfer cyflwyniadau PowerPoint a thraethodau; fodd bynnag, ni fyddai'r rhain yn cael eu hystyried y modd mwyaf priodol o ddarparu gwybodaeth i gleifion ac felly fe wnaeth y cymedrolwyr newid y marciau hyn.

**Marcio tasgau**

Roedd mwyafrif y canolfannau'n marcio'n gyson ac yn cymhwyso'r canllawiau marcio yn deg ar gyfer eu hymgeiswyr. Roedd hyn yn galonogol.

Mewn nifer o ganolfannau eto eleni, roedd y marcio mewnol yn hael, a dylai aseswyr gofio cyfeirio at ddeunyddiau enghreifftiol a gofyn i swyddogion arholiadau am gael gweld adroddiad y ganolfan unigol i gael sylwadau penodol i'r ganolfan ynghylch sut i wella.

Roedd anodi ar y gwaith yn amrywio. Anogir canolfannau i anodi'r gwaith yn y man lle mae'r maen prawf asesu i'w weld. Dylai aseswyr nodi'r MPA ac yna ysgrifennu sylw os oes ei angen. Roedd enghreifftiau da'n cynnwys tanlinellu neu uwcholeuo'r gwaith i ddangos bod y meini prawf asesu wedi'u bodloni. Roedd yr enghreifftiau gorau hefyd yn cynnwys anodiadau wedi'u hysgrifennu â llaw; mae'n arfer da argraffu gwaith yr ymgeisydd, ei anodi â llaw ac yna ei sganio i'w anfon.

Roedd trefn y gwaith yn dda ar y cyfan; fodd bynnag, nid oedd nifer bach o'r canolfannau yn trefnu'r gwaith yn briodol ar gyfer sganio. Gwnewch yn siŵr bod gwaith yn nhrefn y tasgau, a bod MPA 4.2 a 4.3 wedi'u lleoli gyda'r dasg gywir i'w sganio. Wrth sganio, gwnewch yn siŵr bod y gwaith i gyd yr un ffordd i fyny ac nad yw'r sganiwr wedi'i osod i sganio dwy ochr y dudalen os mai dalenni un ochr sydd wedi'u defnyddio.

Nid oedd llawer o dystiolaeth o gymedroli mewnol ar y gwaith. Gwelwyd, ar gyfer rhai canolfannau lle roedd cymedroli mewnol wedi digwydd, bod marciau wedi'u newid i ymgeiswyr lle roedd y marc gwreiddiol a roddwyd gan yr aseswr yn fwy addas. Yn ogystal, gwelwyd nad oedd yr un marc wedi'i nodi ar y clawr ac ar IAMIS â'r gwaith wedi'i gymedroli lle roedd y marciau wedi'u newid ar y daflen cofnodi marciau. Arweiniodd hyn at lawer mwy o wallau clerigol gan ganolfannau nag a welwyd mewn cyfresi blaenorol.

Mae'n un o ofynion y Cyd-gyngor Cymwysterau bod yr holl waith wedi'i ddilysu gan yr ymgeisydd a'r aseswr.

© WJEC CBAC Ltd.

## GWYDDOR FEDDYGOL

## Lefel 3

## Haf 2024

## UNED 5

**Trosolwg o'r Uned**

Mae Gweithgaredd 1 yn asesu MPA 2.1, 2.2, 2.3 a 3.4.

Mae'r tasgau yn y gweithgaredd hwn wedi eu cysylltu. Mae disgwyl i ymgeiswyr gynllunio a chynnal ymchwiliad o sampl, casglu a dadansoddi canlyniadau ac yna eu crynhoi nhw mewn adroddiad ar wahân.

Mae Gweithgaredd 2 yn asesu MPA 1.1, 1.2, 3.1, 3.2, 3.3 a 3.4

Mae'r tasgau hyn yn fwy penodol. Mae tasg 1 yn gofyn i ymgeiswyr gyflwyno gwybodaeth am egwyddorion a ffactorau cyfyngol y tri phrawf. Mae tasg 2 yn gofyn i ymgeiswyr brosesu a dadansoddi data gan ddefnyddio gwerthoedd normadol sydd wedi'u cyflenwi.

Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu cwblhau mwyafrif yr asesiad yn dda, ond nid oedd ambell un wedi cwblhau rhai adrannau o'r gwaith.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

Roedd y briff eleni yng nghyd-destun briwiau peptig, er i'r tasgau fod yn debyg iawn i gyfresi blaenorol, ac roedd y canolfannau a oedd wedi mynychu'r DPP neu wedi defnyddio'r enghreifftiau yn tueddu i baratoi ymgeiswyr yn dda ar gyfer yr asesiad.

**Gweithgaredd 1**
Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu ennill marciau ar gyfer pob maen prawf asesu, gyda'r gwaith cynllunio yn dda ar y cyfan. Gwnaeth yr ymgeiswyr llwyddiannus brofi un set o samplau ac roeddent yn deall beth i brofi amdano a sut i brofi. Roedd yr ymgeiswyr llai llwyddiannus yn tueddu i gael sawl sampl i'w profi ar roeddent yn drysu gan brofi sawl hydoddiant diangen neu roeddent yn defnyddio profion rhesennog (*streak testing*) ar gyfer lefelau bacteriol nad ydynt yn galluogi ar gyfer cyfrifo niferoedd cytrefi, felly ni allent wneud y gwaith cyfrifo angenrheidiol.

Roedd cofnodi data'n tueddu i fod yn well na'r blynyddoedd blaenorol mewn llawer o ganolfannau. Roedd ymgeiswyr llwyddiannus yn esbonio eu canlyniadau'n llawn, ac ymgeiswyr llai llwyddiannus yn colli marciau yn bennaf oherwydd diffyg esboniad o beth roedd angen iddynt ei wneud yn y cyfrifiad, diffyg trachywiredd, ffurf safonol ac unedau.

**Gweithgaredd 2**
**Tasg 1**
Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu esbonio sut roedd y profion yn cynhyrchu canlyniadau a beth oedd ystyr y canlyniadau hyn. Roedd ymgeiswyr llwyddiannus yn gallu esbonio, yn eu geiriau eu hunain, egwyddorion y profion yn ddigon manwl i fodloni'r fanyleb, yn ogystal â sut byddai cyfyngiadau penodol yn effeithio ar y canlyniadau. Nid oedd ymgeiswyr llai llwyddiannus yn esbonio sut yn union mae'r prawf yn gweithio; dim ond paragraff generig am y cyfyngiadau roedden nhw'n ei ysgrifennu.

© WJEC CBAC Ltd.

**Tasg 2**
Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu ennill marciau ar gyfer pob maen prawf asesu wrth ddadansoddi data yma. Esboniodd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn glir sut roeddent wedi trin a thrafod y data a ddarparwyd i lunio graffau wedi'u plotio a'u labelu'n dda â llaw, yna dadansoddwyd data'r cleifion gan ddefnyddio'r holl wybodaeth yn y wybodaeth normadol a gyflenwyd. Nid oedd ymgeiswyr llai llwyddiannus bob amser yn dangos sut roedd y data i luniadu'r graff wedi'u cynhyrchu. Roedd rhai dan anfantais ar ôl creu graffiau electronig oedd ddim yn caniatáu iddynt fodloni'r holl feini prawf marcio. Nid oedd ambell un wedi defnyddio'r holl ddata normadol yn gywir; roedd y rhain yna'n nodi gwybodaeth anghywir ar gyfer MPA 3.3

Ymgeiswyr oedd ddim yn cynhyrchu symiau enfawr o waith ailadroddus neu ychwanegol, ac oedd yn cynllunio eu gwaith mewn modd clir, trefnus a chryno, oedd y mwyaf llwyddiannus wrth ennill y marciau MPA 3.4 a asesir drwy'r gwaith i gyd.

Roedd y rhan fwyaf o'r canolfannau wedi cyflwyno'r gwaith gofynnol yn gywir, ond does dim angen ffolderi a phocedi plastig. Ddylai'r gwaith ddim bod yn fwy na rhai dalenni, felly byddai styffylu gwaith pob ymgeisydd at ei gilydd yn ddigonol. Roedd rhai ymgeiswyr wedi gwneud llawer iawn o waith diangen ac wedi cyfeirio'r ymchwil hwn. Mae hyn yn wastraff amser iddynt oherwydd dylent fod wedi dysgu popeth mae angen ei wybod i gwblhau'r tasgau hyn ac mae'n rhaid bod gorfod cwblhau'r gwaith ychwanegol hwn o fewn yr amser a ganiateir wedi effeithio ar ansawdd y gwaith gofynnol.

Dylid nodi ei bod yn hanfodol atodi cofnod arsylwadau athro/athrawes wedi'i lenwi, taflen ddilysu wedi'i llofnodi gan yr ymgeisydd a'r daflen cofnodi marciau at waith yr ymgeiswyr.

Yr unig ran o'r gwaith mae angen ei farcio'n fewnol yw'r cofnod arsylwadau athro/athrawes ar gyfer MPA 2.2. Roedd y rhan fwyaf o ganolfannau wedi cwblhau hwn yn dda ac wedi'i gynnwys gyda gwaith pob ymgeisydd.

© WJEC CBAC Ltd.

**GWYDDOR FEDDYGOL**

**Lefel 3**

**Haf 2024**

**UNED 6**

**Trosolwg o'r Uned**

Uned synoptig yw hon ac mae'n asesu cynnwys o bob rhan o'r fanyleb, gan roi cyfle i'r ymgeiswyr ddangos eu dealltwriaeth o'r cysylltiadau sydd rhwng pum uned arall y cymhwyster hwn mewn Gwyddor Feddygol. Mae disgwyl i ymgeiswyr wybod a defnyddio detholiad priodol o sgiliau, technegau, cysyniadau, damcaniaethau a gwybodaeth o bob rhan o gynnwys y cwrs.

Roedd y cwestiynau yn y papur hwn yn seiliedig ar ddeunyddiau wedi'u rhyddhau ymlaen llaw a oedd ar gael bedair wythnos cyn yr arholiad. Roedd yr erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw / ffolder adnoddau yn cynnwys gwybodaeth am dri chyflwr meddygol: Osteoarthritis, Canser y Fron a Thrombosis Gwythiennau Dwfn. Roedd disgwyl i ymgeiswyr astudio ac ymchwilio'r wybodaeth a gyflwynir yn y ffolder cyn yr arholiad.

Roedd yn braf gweld bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi rhoi cynnig ar bob un o'r cwestiynau, fel y gwnaethant yn y flwyddyn flaenorol. Roedd rhai o'r cyfrifiadau mathemategol wedi'u gwneud yn arbennig o dda gan ddefnyddio'r wybodaeth a roddwyd yn y deunydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw yn llwyddiannus i ateb cwestiynau. Fodd bynnag, roedd gormod o ymgeiswyr yn colli marciau yn ddiangen o ganlyniad i beidio â defnyddio iaith wyddonol yn briodol neu am roi atebion amwys neu amhenodol. Gall arholwyr ond farcio'r hyn sydd wedi'i ysgrifennu ar y sgript ac ni ddylai fod rhaid iddynt ddyfalu bwriad yr ymgeisydd.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Cwestiynau 1-5 Astudiaeth Achos 1: Osteoarthritis**

1. Roedd y cwestiwn hwn yn ymwneud â nodi'r prif wahaniaeth amlwg rhwng dau lun pelydr-X, gan awgrymu beth allai fod yn achosi'r newid mewn ymddangosiad ac yna defnyddio'r wybodaeth yr ymchwiliwyd iddi o'r deunydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw er mwyn nodi effaith asid hyalwronig ar gymal ag osteoarthritis.

   (a) Ar gyfer rhan (i) gwnaeth y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr ddehongli'r cwestiwn yn gywir ac roeddent yn gallu nodi'r prif wahaniaeth amlwg rhwng y ddau lun pelydr-X. Cyfeiriodd nifer sylweddol yn anghywir at golli cartilag ar gyfer y rhan hon ac roedd ambell i ateb amhenodol yn cyfeirio at y 'cymalau' yn rhwbio yn erbyn ei gilydd. Cafodd rhan (ii) ei hateb yn dda ar y cyfan, gydag ymgeiswyr yn cyfeirio'n gywir at golli cartilag neu golli hylif synofaidd.

   (b) Roedd llawer o atebion da yn ymwneud ag effeithiau asid hyalwronig ar y cymal. Gwnaeth rhai ymgeiswyr ond ailadrodd y lleddfu mewn poen a grybwyllwyd ym môn y cwestiwn. Nid oedd hyn yn deilwng o farciau.

© WJEC CBAC Ltd.

2. Roedd angen gwybodaeth am adeiledd a dull gweithredu'r ensymau a'r adeiledd ffosffolipid ar y cwestiwn hwn. Cafwyd rhai atebion da yma ac roedd yr ymgeiswyr gorau yn gallu dangos defnydd da o derminoleg wyddonol, yn ogystal ag awgrymu'n rhesymegol pam yr oedd yr ensym COX wedi'i gysylltu â'r reticwlwm endoplasmig.

3. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi gallu rhoi disgrifiad clir o ddwy duedd yn y graff. Collodd rhai ymgeiswyr farciau am beidio â chyfeirio at yr ystod oedran gywir yn eu hateb.

4. Cwestiwn dadansoddi data oedd hwn a atebwyd yn gywir gan y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr. Roedd rhai ymgeiswyr yn methu cysylltu data màs y corff â dosbarthiad indecs màs y corff a wnaeth effeithio ar eu hateb ynghylch pam yr oedd trwch cartilag yn cefnogi'r diagnosis o osteoarthritis.

5. Gydag Uned 3 y fanyleb roedd y cwestiwn hwn yn cael ei gysylltu'n bennaf.

(a) Roedd llawer o'r ymgeiswyr yn gallu cael marciau llawn am gyfrifo cost flynyddol meddyginiaeth ond gwnaeth rhai fethu â rhoi eu hateb i'r bunt agosaf neu gwnaethant dalgrynnu eu hateb yn anghywir.

(b) Roedd yr atebion i'r cwestiwn hwn yn gofyn i'r ymgeiswyr nodi dwy ystyriaeth foesegol i ymchwiliad meddygol a oedd yn dangos pam nad yw'r defnydd o iaith amwys, anwyddonol yn deilwng o farciau. Roedd yr ymgeiswyr gorau yn gallu cyfeirio'n gywir at gyfrinachedd cleifion, cydsyniad <u>gwybodus</u> a'r hawl i dynnu'n ôl.

(c) Ychydig o ymgeiswyr a oedd yn gallu nodi'r rhagdybiaeth nwl yn gywir ar gyfer prawf ystadegol. Mae'r ymadrodd ‘nid oes gwahaniaeth arwyddocaol’ yn hanfodol i gael marciau. Dim ond yr ymgeisydd gwell allai nodi ac esbonio'r casgliad i'r prawf a chysylltu'r gwerth a gyfrifwyd i dderbyn y rhagdybiaeth nwl.

**Cwestiynau 6-10 Astudiaeth Achos 2: Canser y Fron**

6. Roedd y cwestiwn hwn yn gysylltiedig â data am yr achosion o ganser y fron.

(a) Roedd llawer o'r ymgeiswyr yn gallu cael marciau llawn am blotio'r graff yn gywir. Roedd yn siomedig bod gormod o'r ymgeiswyr wedi dewis graff llinell yn hytrach na siart bar ac roedd nifer sylweddol o ymgeiswyr wedi methu â labelu'r echelinau na chynnwys gwerth wrth darddbwynt echelin-y.

(b) Roedd llawer o'r ymgeiswyr yn gallu ennill marciau llawn am gyfrifo'r cynnydd mewn canrannau. Fel yn ystod blynyddoedd blaenorol, roedd nifer sylweddol wedi cael anhawster yma ond wedi gallu ennill rhai marciau am ddewis y data cywir o'r wybodaeth a roddwyd yn y cwestiwn.

7. Roedd y cwestiwn hwn yn gysylltiedig â chynhyrchu gwrthgyrff gyda phrofion clinigol a dehongli cromliniau graddnodi.

(a) Roedd llawer o'r ymgeiswyr yn methu â nodi lymffocytau B yn gywir fel y celloedd sy'n cynhyrchu gwrthgyrff. Roedd diffyg manwl gywirdeb mewn gormod o atebion a gyfeiriodd at lymffocytau neu lewcocytau yn unig.

© WJEC CBAC Ltd.

(b) Nifer syndod o isel o ymgeiswyr oedd yn gallu enwi'r prawf i ddarganfod lefel gwrthgyrff yn y gwaed.

(c) Yn rhan (i), roedd yr ymgeiswyr gorau yn gallu defnyddio'r gromlin crynodiad ar gyfer trastuzumab i ateb y cwestiwn hwn yn gywir. Collodd llawer o'r ymgeiswyr y cliwiau yn y cwestiwn fod angen iddynt edrych ar Ffigur 3 a Ffigur 4 a bod angen yr ateb mewn pg/ml. Yn rhan (ii), roedd gan y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr ryw syniad o'r hyn yr oedd y term ‘hanner oes' yn ei olygu mewn perthynas â meddyginiaethau ond roedd y diffyg manwl gywirdeb yn yr atebion yn golygu na allent gael unrhyw farciau. Yn rhan (iii) roedd llawer o'r ymgeiswyr yn gallu defnyddio'r graff yn gywir i gyfrifo hanner oes trastuzumab.

8. Gwnaeth y cwestiwn 10 marc hwn alluogi'r ymgeiswyr i ddangos eu gwybodaeth am y triniaethau mwy newydd i ganser. Cafwyd rhai atebion ardderchog. Fodd bynnag, rhoddodd rhai ymgeiswyr ddisgrifiadau hir o gemotherapi yn hytrach na chemotherapi wedi'i gyfuno ag imiwnotherapi. Ni wnaeth yr ymgeiswyr gwannaf gysylltu therapïau wedi'u targedu â thriniaeth wedi'i phersonoli. Roedd llawer o ddisgrifiadau anghywir o baladrau o belydriad yn cael eu targedu at ganser.

9. Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i'r ymgeiswyr esbonio pam mae nodau lymff yn y ceseiliau'n cael eu tynnu yn ystod llawdriniaeth y fron. Unwaith eto, collodd llawer o'r ymgeiswyr farciau yma am atebion amwys heb unrhyw gysylltiad clir â'r tebygrwydd y gall y canser fod wedi lledu neu fetastaseiddio.

10. Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn am dri dull i leihau'r risg o ganser y fron ac atebodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr y cwestiwn yn dda. Fodd bynnag, gwelwyd ‘yfwch y llai’ yn aml, heb unrhyw gyfeiriad penodol at alcohol. Yn ogystal, roedd angen cyfeirio at ffordd iach o fyw i gael marciau.

**Cwestiynau 11-14 Astudiaeth Achos 3: Thrombosis Gwythiennau Dwfn**

11. Roedd angen i'r ymgeiswyr gymharu adeiledd rhydweli a gwythïen. Gwnaeth rhai ymgeiswyr gamddehongli'r cwestiynau a rhoesant ddisgrifiadau o newidiadau mewn pwysedd gwaed a chludiant gwaed ocsigenedig/dadocsigenedig. Enillodd llawer o'r ymgeiswyr farciau llawn am wneud cymariaethau dilys.

12. Roedd y wybodaeth a oedd yn ofynnol i ateb y cwestiwn hwn yn dod o Uned 1. Ar y cyfan, roedd diffyg gwybodaeth am adeiledd y galon a chyfeiriad llif y gwaed drwy'r galon a dealltwriaeth ohonynt.

(a) Enillodd rhai ymgeiswyr farciau llawn am labelu'r diagram o'r galon lle mae'r falf gilgant yw'r adeiledd lleiaf adnabyddus.

(b) Roedd yr ymgeiswyr gorau yn gallu cysylltu'r gwahaniaeth rhwng y gwasgeddau yn y galon i gyfeiriad llif y gwaed a'r pellter sy'n ofynnol i wthio'r gwaed. Roedd rhai ymgeiswyr yn gallu gwneud y cysylltiad rhwng y muriau trwchus a oedd yn gallu rhoi mwy o wasgedd ac yn aml roedd dryswch rhwng gwasgedd a chyfaint.

(c) Enillodd llawer o'r ymgeiswyr farciau yma am gysylltu ffurfiant tolchenni gwaed gyda'r llif gwaed arafach, pwysedd gwaed is neu bresenoldeb falfiau yn y gwythiennau.

© WJEC CBAC Ltd.

13. Roedd yr ymgeiswyr yn gallu dangos rhywfaint o wybodaeth am ECG ond unwaith eto, roedd llawer o'r ymgeiswyr dan anfantais yn y cwestiwn hwn, drwy beidio â mynegi eu hatebion yn glir ac yn ddiamwys. Roedd y geiriau atria ac arteries yn cael eu drysu'n aml yn y Saesneg, neu roedd y sillafu mor wael, roedd hi'n amhosibl i'r arholwr benderfynu pa adeiledd roeddent yn cyfeirio ato. Yn aml, roedd y disgrifiadau o olion ECG yn amwys ac roedd diffyg manwl gywirdeb ynddynt.

(a) Enillodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr o leiaf un marc ar gyfer y cwestiwn hwn drwy nodi bod ECG yn mesur gweithgarwch trydanol y galon. Dim ond yr ymgeiswyr gorau wnaeth gysylltu gweithgarwch trydanol i gyfangiad y cyhyrau.

(b) Cafodd y cwestiwn hwn ei ateb naill ai'n dda neu'n wael iawn. Roedd y defnydd o'r derminoleg gywir yn hanfodol i ateb y cwestiwn hwn. Roedd hi'n ddymunol gweld y defnydd cywir o systole a diastole neu ddadbolareiddio ac ailbolareiddio yn sgriptiau'r ymgeiswyr.

(c) Gwnaeth yr ymgeiswyr gorau gymharu'r olin tacycardig gyda'r olin ECG normal yn dda. Fodd bynnag, roedd gormod o ddisgrifiadau o donnau mwy o faint yn hytrach na chyfeiriad at fwy o osgled. Gwnaeth rhai ymgeiswyr ddisgrifio'n anghywir bod yr olin tacycardig yn ansefydlog. Yn ogystal, ceisiodd rhai ymgeiswyr esbonio'r gwahaniaethau yn hytrach na dim ond rhoi disgrifiad fel y mae'r cwestiwn yn gofyn amdano.

(ch) Gwnaeth y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr nodi'n gywir bod yr olin yn dangos tacycardia.

14. Roedd y cwestiwn yn gofyn am ddealltwriaeth o brofion haematoleg a sut y mae haemocytometr yn cael ei ddefnyddio.

(a) Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu rhoi dehongliad cywir o ganlyniadau'r profion haematoleg. Collodd gormod o ymgeiswyr farciau drwy beidio â mynegi eu hatebion yn glir. Bach iawn o ymgeiswyr allai nodi'r hyn yr oedd prawf haematocrit yn ei fesur.

(b) Cafwyd rhai awgrymiadau da ynghylch pam nad oedd canlyniadau cyfrif gwaed yn gywir o bosibl. Fodd bynnag, nid oedd camgymeriad dynol heb esboniad pellach yn deilwng o farciau.

(c) Ychydig iawn o ymgeiswyr oedd yn gallu awgrymu pam nad yw'r celloedd ar ddwy ochr grid haemocytometr yn cael eu cyfrif.

© WJEC CBAC Ltd.

## Eich cefnogi chi

### Manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol

Mae ein tîm pwnc cyfeillgar wrth law i'ch cefnogi rhwng 8.30 a.m. a 5.00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Ffôn: 029 2240 4252
E-bost: gwyddoniaeth@cbac.co.uk
Tudalen pwnc y cymhwyster: Lefel 3 Gwyddor Feddygol (cbac.co.uk)

Gweler manylion cyswllt defnyddiol eraill yma: Manylion Cyswllt Defnyddiol | CBAC

### Hyfforddiant DPP / Dysgu Proffesiynol

Manteisiwch ar ein cyrsiau DPP/DP ar-lein rhad ac am ddim poblogaidd i gael adborth ar arholiadau ac i ofyn cwestiynau i'n tîm pwnc, a dewch i un o'n digwyddiadau wyneb yn wyneb, sy'n canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu, darparu syniadau ar gyfer yr ystafell ddosbarth a datblygu dealltwriaeth o farcio ac asesu.

Mae manylion ynghylch ein holl gyrsiau i'w cael yma: https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/

### Cymwysterau CBAC

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae CBAC yn cefnogi ei gymuned addysg drwy ddarparu cymwysterau dwyieithog ac asesiadau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol i ysgolion a cholegau ar draws y wlad. Mae hyn yn caniatáu i'n dysgwyr gyrraedd eu potensial yn llawn.

Gyda dros 70 mlynedd o brofiad, rydym hefyd ymhlith y prif ddarparwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

© WJEC CBAC Ltd.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Ltd.